# CYNLLUN GWAITH B10

Dyma enghraifft o Gynllun Gwaith. Gallech greu un eich hun, gan ddefnyddio'r llyfr gwaith a'r adnoddau ar-lein sydd wedi'u darparu, gan ychwanegu eich syniadau a'ch adnoddau eich hun. Mae'r Cynllun Gwaith hwn yn dilyn cynllun Tymor Hir ehangach (sydd ar gael yn y ffolder adnoddau Ysgolion Uwchradd) sy'n dilyn thema. Mae'n rhoi sylw i bynciau allweddol sy'n ymwneud â gamblo a chwarae gemau ar draws y pedwar Diben Addysg yng Nghymru, gan alluogi ein holl blant a phobl ifanc i fod yn: 1) Dysgwyr galluog ac uchelgeisiol 2) Cyfranwyr mentrus a chreadigol 3) Dinasyddion egwyddorol a gwybodus a 4) Unigolion iach a hyderus. Mae'n gwricwlwm sbiral, gyda phynciau a themâu allweddol yn cael eu hailystyried, tra'n cynyddu'r her, yn ehangu'r cwmpas, ac yn helpu myfyrwyr i feddwl yn fwy dwys drwy'r cyfnodau allweddol.

| | Gweithgareddau | Adnoddau |
|---|---|---|
| **1** | **Hysbysebu a Marchnata Gamblo**<br><br>Her 3.3: Y Diwydiant Gamblo. Hysbysebu: Sut mae hysbysebion gamblo'n gweithio? Ymchwiliwch a dewch o hyd i wybodaeth am y prosesau dan sylw. Sut mae pethau wedi newid dros amser? Rhannwch eich canfyddiadau gan ddefnyddio ffotograffau a/neu ddiagramau<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW02-04, CW06, CW08-11, CW17-18, CW20-21, CW27, CW29, CW33<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • Llyfr Gwaith Gwybodaeth YGAM<br>• B10 CG1<br>• B10 G1 - PowerPoint<br>• Taflen Adnoddau B10 G1 |
| **2** | **Diogelu:**<br><br>Her 3.4: Y Diwydiant Gamblo: Diogelu. Cyfrifoldeb pwy yw diogelu pobl mewn perthynas â gamblo? Ystyriwch unigolion, teulu, y cyfryngau, marchnata, y diwydiant gamblo, sefydliadau ariannol ac unrhyw sefydliadau eraill a allai fod â rôl i'w chwarae. Ewch ati i greu cyflwyniad i rannu eich canfyddiadau/syniadau.<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW01—5, CW09-10, CW15-16, CW18-19, CW22, CW25, CW27, CW30-31, CW33<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • Llyfr Gwaith Gwybodaeth YGAM<br>• B10 CG2<br>• B10 G2 - PowerPoint<br>• Post-its |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

V1.0/EBRILL21

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **3** | **Gamblo: Cymhelliant a Risg - Pam mae pobl ifanc yn gamblo? Rhan 1.**<br><br>Her 1.2: Ystyriwch beth sy'n cymell pobl ifanc i gamblo a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â hyn. Cynhaliwch holiadur i archwilio beth sy'n cymell eich dosbarth/ysgol/grŵp ieuenctid. Ewch ati i greu deunyddiau dysgu i ddangos eich canfyddiadau.<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW01-02, CW04-05, CW09-10, CW15-16, CW18, CW20, CW24-25, CW27, CW29, CW33<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • Llyfr Gwaith Gwybodaeth YGAM<br>• B10 CG3<br>• B10 G2 - PowerPoint |
| **4** | **Niwed sy'n gysylltiedig â gamblo - Pam mae pobl ifanc yn gamblo? Rhan 2.**<br><br>Her 1.2: Yn datblygu ar waith Rhan 1. Archwiliwch sut gellir cefnogi pobl ifanc i adnabod niwed posibl gamblo. Ewch ati i greu adnoddau i'w cefnogi i adnabod y niwed posibl.<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW01-05, CW09-11, CW14-16, CW18, CW24-25, CW27, CW29-30, CW33<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • Llyfr Gwaith Gwybodaeth YGAM<br>• B10 CG4<br>• B10 G2 - PowerPoint<br>• Taflen ddata B10 |
| **5** | **Arian a Dyled:**<br><br>Her 5.3: Ystyriwch faint o arian, ar gyfartaledd, mae pobl ifanc 11-16 oed yn ei wario ar gamblo. Sut arall gellid gwario'r arian hwn? Nodwch gynllun ariannol tymor byr a thymor hir i chi'ch hun.<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW02, CW04, CW06-07, CW12, CW16, CW20-21, CW27, CW29-30, CW33<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • Llyfr Gwaith Gwybodaeth YGAM<br>• B10 G5<br>• B10 G5 - PowerPoint<br>• Taflen ddata B10 |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

| | | |
|---|---|---|
| | Mathemateg a Rhifedd | |
| **6** | **Tueddiadau Gamblo:**<br><br>Her 6.4: Cynhaliwch arolwg byr ymysg oedolion i ganfod pa rai o'r mathau hyn o gamblo maen nhw wedi rhoi cynnig arnyn nhw a pham: loteri, cardiau crafu, bingo, rasio ceffylau, casino, peiriant ffrwythau, ar-lein, arall. Lluniwch graff neu siart cylch i ddangos canrannau pob math o gamblo.<br><br>**Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:**<br>CW02-05, CW09-11, CW17-18, CW20-22, CW25, CW27, CW33<br>**Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:**<br>Iechyd a Llesiant<br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | • Llyfr Gwaith Gwybodaeth YGAM<br>• B10 CG6<br>• B10 G6 - PowerPoint |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

V1.0/EBRILL21

YGAM resources

# TAFLEN DDATA: NIWED GAMBLO

## Gamblo problemus:

Pan fydd arferiad rhywun yn peryglu, yn niweidio neu'n tarfu ar weithgareddau teuluol, personol neu hamdden.

GAMBLING COMMISSION

## Adnabod arwyddion gamblo problemus

- Treulio gormod o amser a/neu wario gormod o arian
- Ei chael yn anodd ei reoli neu stopio
- Dadlau gyda theulu a ffrindiau a throi'n amddiffynnol
- Meddwl neu siarad amdano drwy'r amser
- Ceisio ennill arian yn ôl a dioddef problemau sy'n ymwneud â dyledion
- Gamblo nes nad oes gennych chi ddim ar ôl
- Teimlo'n bryderus neu'n poeni am gamblo a/neu arian
- Colli diddordeb mewn hobïau a rhyngweithio cymdeithasol
- Esgeuluso anghenion personol
- Cuddio neu ddweud celwydd am gamblo
- Gwerthu eiddo neu ddwyn i dalu am gamblo

## Cymorth ar gyfer niwed sy'n gysylltiedig â gamblo

BIG DEAL? https://www.bigdeal.org.uk/

NHS https://www.cnwl.nhs.uk/services/mental-health-services/addictions-and-substance-misuse/national-problem-gambling-clinic

GamCare **0808 8020 133** https://www.gamcare.org.uk/

childline
ONLINE, ON THE PHONE, ANYTIME
childline.org.uk | 0800 1111

## Gamblo ac arian personol

- Mae **11%** o bobl ifanc 11-16 oed wedi gwario arian ar gamblo yn y 7 diwrnod diwethaf
- Mae **35%** o'r bobl ifanc 11-16 oed hyn wedi gwario dros £10 yn y 7 diwrnod diwethaf
- Mae **49%** o'r bobl ifanc 11-16 oed hyn wedi gwario £5 neu lai ar gamblo yn y 7 diwrnod diwethaf
- Mae **44%** o bobl ifanc 11-16 oed wedi talu arian i agor trysorflychau
- Mae **7%** o bobl ifanc 11-16 oed wedi gwario arian ar gamblo ar-lein

Young People and Gambling Survey 2019 Arolwg y Comisiwn Hapchwarae (https://www.gamblingcommission.gov.uk/PDF/Young-People-Gambling-Report-2019.pdf


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

# B10G1: Gamblo: Hysbysebu a Marchnata

**Her:** Mae'r wers hon yn ymwneud â her 3.3 yn y llyfryn Gwybodaeth: Y Diwydiant Gamblo: Sut mae hysbysebion gamblo'n gweithio? Ymchwiliwch i nifer o frandiau blaenllaw a dewch o hyd i wybodaeth am y prosesau dan sylw. Sut mae pethau wedi newid dros amser? Rhannwch eich canfyddiadau gan ddefnyddio ffotograffau a/neu ddiagramau.

## Amcanion Dysgu:

- Deall sut mae hysbysebion yn gweithio.
- Adnabod a deall y prosesau y mae gwahanol frandiau a chwmnïau yn eu defnyddio.
- Dadansoddi a gwerthuso'r newidiadau mewn hysbysebu dros amser.

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n deall beth yw hysbysebu;
- Rydw i'n gallu adnabod y gwahanol strategaethau hysbysebu y mae gwahanol frandiau yn eu defnyddio;
- Rydw i'n gallu egluro sut mae brandiau yn defnyddio hysbysebion;
- Rydw i'n gallu disgrifio'r newidiadau mewn hysbysebu dros amser;
- Rydw i'n gallu cyflwyno fy nghanfyddiadau gan ddefnyddio cymhorthion gweledol.

## Adnoddau:

- B10 G1 - PowerPoint
- Taflen Adnoddau B10 G1
- Beiro a phapur
- Dewisol: cyfrifiadur

### Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW02-04, CW06, CW08-11, CW17-18, CW20-21, CW27, CW29, CW33

### Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel gyda chanllawiau a rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen a chael y cymorth priodol a dewisiadau cyfeirio ychwanegol. Efallai yr hoffech weithio gyda'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol, a allai ysgogi emosiynau. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio.


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/EBRILL21

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B10; hon yw'r rhan gyntaf o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

# B10G1: Gamblo: Hysbysebu a Marchnata

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: Rho bump i mi**<br>[Yr athro i dynnu llun llaw ar y bwrdd]<br><br>Gweithgaredd: Rho bump i mi<br>[Athro yn tynnu llun llaw ar y bwrdd] Mae myfyrwyr yn rhoi pum ffordd wahanol y gallai brand gamblo neu chwarae gemau ddefnyddio hysbysebion.<br><br>Yr athro i gasglu atebion o amgylch yr ystafell a'u hysgrifennu ar y bwrdd.<br><br>Mae'r syniadau'n cynnwys teledu, radio, cyfryngau cymdeithasol, chwaraeon, papurau newydd, ffenestri siopau, cardiau loteri, peiriannau ar lan y môr, pecynnau cardiau ayb. | **Gweithgaredd: Gadewch i ni ymchwilio:**<br><br>Mae myfyrwyr yn cael cyfres o ddelweddau (Adnodd B10 CG1) a dylen nhw ymchwilio i wahanol gwmnïau, fel Paddy Power, Bet 365 ac ati. Mae myfyrwyr yn ymchwilio i sut maen nhw'n defnyddio hysbysebion ac a yw hyn wedi newid dros amser. Bydd y myfyrwyr yn creu arddangosfa weledol o'u canfyddiadau fel llinell amser neu fap meddwl, gydag anodiadau.<br><br>**Myfyrio:**<br>Ystyriwch sut mae hysbysebion yn effeithio arnyn nhw ac a ydyn nhw'n teimlo bod pobl ifanc yn cael eu diogelu. | **Gweithgaredd: Trafodwch**<br><br>Gofynnir i fyfyrwyr drafod pa un yw'r math mwyaf effeithiol/lleiaf effeithiol o hysbysebu. Gellid gwneud hyn drwy bleidlais neu drwy ddangos ychydig o opsiynau a gofyn i fyfyrwyr sefyll wrth ymyl yr opsiwn sydd fwyaf/lleiaf effeithiol yn eu barn nhw. Dylai'r myfyrwyr roi eu rhesymau. Efallai y byddwch am holi am eu safbwyntiau am y dulliau diogelu sydd ar gael i bobl ifanc.<br><br>**Gwaith cartref: Cyfrif**<br>Mae myfyrwyr yn creu siart cyfrif o sawl gwaith maen nhw'n gweld gamblo'n cael ei hysbysebu drwy gydol yr wythnos. Gallen nhw rannu'r siart yn wahanol fathau o gamblo, fel ar-lein, digwyddiadau chwaraeon, byrddau hysbysebu ac ati.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: GamCare a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

V1.0/EBRILL21


YGAM resources

# B10G1: ADNODDAU

YMWADIAD A NODYN I ATHRAWON: mae hwn yn adnodd dewisol ac yn cynnwys rhai enghreifftiau o blith nifer y gallech chi eu defnyddio. Efallai y byddwch am ddod â samplau i mewn eich hun - a allai fod yn fwy cyfredol neu ddefnyddio TGCh er mwyn helpu gyda hyn. Neu, gallech ofyn i fyfyrwyr ddod â samplau o bethau maen nhw wedi'u gweld.


## PADDY POWER











## WILLIAM HILL













©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

## BET 365













## SKY BET














©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

V1.0/EBRILL21

YGAM resources

## GEMAU AC E-CHWARAEON














©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

# B10G2: Diogelu

**Her:** Cyfrifoldeb pwy yw diogelu pobl mewn perthynas â gamblo?

## Amcanion Dysgu:

- Nodi pwy sy'n gyfrifol ac a ddylai fod yn gyfrifol am ddiogelu pobl mewn perthynas â gamblo.
- Ystyried a oes digon o ddulliau diogelu ar waith ar gyfer pobl mewn perthynas â gamblo.
- Gwerthuso a chyflwyno gwybodaeth am ddiogelu mewn perthynas â gamblo.

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n gallu adnabod a thrafod diogelu a chyfrifoldeb mewn perthynas â gamblo.
- Rydw i'n gallu gwerthuso a chyflwyno gwybodaeth am ddiogelu mewn perthynas â gamblo.

## Adnoddau:

- B10 Gwers 2 - PowerPoint
- Beiro a phapur
- Post-its
- Dewisol: cyfrifiadur ar gyfer y cyflwyniad

### Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW01—5, CW09-10, CW15-16, CW18-19, CW22, CW25, CW27, CW30-31, CW33

### Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel gyda chanllawiau a rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen a chael y cymorth priodol a dewisiadau cyfeirio ychwanegol. Efallai yr hoffech weithio gyda'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol, a allai ysgogi emosiynau. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio.

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B10; hon yw'r ail ran o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/EBRILL21

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: Post-it**<br><br>Beth mae 'diogelu' yn ei olygu mewn perthynas â gamblo?<br><br>Mae myfyrwyr yn cael nodiadau post-it a dylen nhw ysgrifennu beth mae diogelu'n ei olygu yn eu barn nhw, a'i roi ar y bwrdd ym mlaen yr ystafell.<br><br>Yr athro i ddarllen yr ymatebion a'r dosbarth i feddwl am ddiffiniad y mae pawb yn cytuno arno. | **Gweithgaredd: Map meddwl**<br><br>Mewn grwpiau, gofynnir i fyfyrwyr lunio map meddwl o'r gwahanol bobl/sefydliadau a ddylai, yn eu barn nhw, fod yn gysylltiedig â diogelu myfyrwyr rhag gamblo.<br><br>**Athro:** I gefnogi, gallech awgrymu:<br>Y Comisiwn Hapchwarae<br>Y Gweithredwyr eu hunain<br>Y Llywodraeth<br>Banciau/sefydliadau ariannol<br>Cyfrifoldeb unigolion<br>Teulu<br>Mudiadau/grwpiau cymunedol<br>Arweinwyr/grwpiau ffydd<br>Y cyfryngau (er enghraifft, Ofcom), marchnata (er enghraifft, yr Awdurdod Safonau Hysbysebu),<br><br>Ewch ati i greu cyflwyniad i rannu eich canfyddiadau/syniadau.<br><br>Athro i dderbyn ymatebion a grwpiau i ychwanegu unrhyw bobl sydd ar goll at eu map meddwl.<br><br>Dylai'r myfyrwyr wedyn ailedrych ar y map meddwl a rhoi cylch o amgylch y bobl maen nhw'n teimlo sy'n ymwneud â diogelu ar hyn o bryd.<br><br>**Gweithgaredd: Rydyn ni'n falch o gyflwyno...**<br>Mae myfyrwyr yn gweithio fel grŵp i greu cyflwyniad byr ar bwy, yn eu barn nhw, ddylai fod yn gyfrifol am ddiogelu pobl mewn perthynas â gamblo. Rhaid iddyn nhw esbonio eu rhesymeg fel rhan o'u cyflwyniad. | **Gweithgaredd: gorsafoedd pleidleisio!**<br><br>Mae'r myfyrwyr yn pleidleisio ar ba grŵp a roddodd y cyflwyniad / dadl gryfaf, gan roi rhesymau dros eu dewis.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: GamCare a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

# B10G3: Gamblo: Cymhelliant a Risg. Pam mae pobl ifanc yn gamblo? Rhan 1

**Her:** Ystyriwch beth sy'n cymell pobl ifanc i gamblo a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â hyn. Cynhaliwch holiadur i archwilio beth sy'n cymell eich dosbarth/ysgol/grŵp ieuenctid. Ewch ati i greu deunyddiau dysgu i ddangos eich canfyddiadau. Dylech hefyd archwilio pam nad yw pobl ifanc yn gamblo.

## Amcanion Dysgu:

- Ystyried y rhesymau pam fod pobl ifanc yn gamblo
- Ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â gamblo
- Ymchwilio a chyflwyno canfyddiadau ar yr hyn sy'n cymell gamblo
- Ystyried pam fod pobl yn dewis peidio â gamblo, gan gynnwys rhesymau crefyddol a diwylliannol

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n gallu nodi beth sy'n cymell pobl ifanc sy'n gamblo
- Rydw i'n gallu nodi pam nad yw pobl yn gamblo
- Rydw i'n gallu  nodi'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â gamblo.
- Rydw i'n deall bod gamblo'n gallu digwydd mewn gemau, fel defnyddio trysorflychau.
- Rydw i'n gallu creu a chynnal holiadur.
- Rydw i'n gallu dadansoddi canfyddiadau ymchwiliad.
- Rydw i'n gallu cyflwyno gwybodaeth i fy nghyfoedion.

## Adnoddau:

- B10 G2 - PowerPoint
- Beiro a phapur
- Dewisol: cyfrifiadur ar gyfer cyflwyno canfyddiadau

### Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW01-02, CW04-05, CW09-10, CW15-16, CW18, CW20, CW24-25, CW27, CW29, CW33

### Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel gyda chanllawiau a rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen a chael y cymorth priodol a dewisiadau cyfeirio ychwanegol. Efallai yr hoffech weithio gyda'ch


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

Arweinydd Diogelu Dynodedig. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol, a allai ysgogi emosiynau. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio.

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B10; hon yw'r drydedd rhan o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: Map meddwl**<br><br>Mewn parau, mae myfyrwyr yn creu map meddwl o'r gwahanol bethau sy'n cymell pobl ifanc i gamblo. Dywedwch y gallai gamblo ddigwydd drwy gemau ar-lein, fel defnyddio trysorflychau, neu drwy 'gemau' gyda ffrindiau/teulu fel gêm ceiniogau, neu fetio arian ar gemau bwrdd a gemau cardiau er enghraifft.<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr restru'r rhesymau pam eu bod yn meddwl bod pobl yn optio allan. Er enghraifft, dewis, meddwl ei fod yn wastraff arian, rhesymau crefyddol a diwylliannol, effaith ar y gymuned ac ati.<br><br>Yr athro i gasglu ymatebion a llunio map meddwl o atebion y myfyrwyr ar y bwrdd.<br><br>**Gweithgaredd: Meddwl Paru Rhannu** | **Gweithgaredd: Gadewch i ni ymchwilio!**<br><br>Mae myfyrwyr yn creu holiadur i ganfod beth sy'n cymell pobl i gamblo yn eu dosbarth. Unwaith eto, gallai hyn ymwneud â chwarae gemau a phrynu mewn apiau. Dylai myfyrwyr gynnwys cwestiynau ynghylch pam nad yw pobl yn gamblo hefyd.<br><br>Bydd y myfyrwyr yn creu cyflwyniad/deunyddiau dysgu o'r wybodaeth maen nhw wedi dod o hyd iddi. Gallai hyn gynnwys graffiau/siartiau cylch ac ati.<br><br>Gallai rhai myfyrwyr gyflwyno eu canfyddiadau i'r dosbarth os oes amser yn y wers.<br><br>Os oes gan fyfyrwyr fynediad at TGCh, gellid gwneud hyn drwy ddefnyddio Excel neu rywbeth tebyg. | **Gweithgaredd: Tocyn gadael**<br><br>Bydd myfyrwyr yn cael tocyn (post-it, darn o bapur, tocyn wedi'i argraffu ac ati) a bydd gofyn iddyn nhw ysgrifennu un risg sy'n gysylltiedig â gamblo, ac un ffordd o oresgyn y risg hon. Er enghraifft, gallai gwario gormod o arian fod yn risg, ac un ateb fyddai sicrhau nad oes manylion unrhyw gerdyn yn cael eu storio ar ddyfeisiau.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: GamCare a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

| | | |
|---|---|---|
| Mewn parau, mae myfyrwyr yn trafod y risgiau sy'n gysylltiedig â gamblo/chwarae gemau. Yna mae'r myfyrwyr yn rhannu eu syniadau â'r dosbarth. | | |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

# B10G4 Niwed Gamblo. Pam mae pobl ifanc yn gamblo? Rhan 2

**Her:** Yn datblygu ar waith Gwers 1. Archwiliwch sut gellir cefnogi pobl ifanc i adnabod niwed posibl gamblo. Ewch ati i greu adnoddau i'w cefnogi i adnabod y niwed posibl.

## Amcanion Dysgu:

- Ystyried y risgiau a'r niwed posibl sy'n gysylltiedig â gamblo
- Nodi ymddygiadau allweddol sy'n awgrymu bod rhywun yn dioddef niwed
- Codi ymwybyddiaeth o niwed posibl gamblo a chyfeirio at gymorth

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n gallu nodi'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â gamblo
- Rydw i'n gallu diffinio niwed sy'n gysylltiedig â gamblo
- Rydw i'n gallu nodi ymddygiadau allweddol sy'n gysylltiedig â niwed sy'n gysylltiedig â gamblo
- Rydw i'n gallu creu adnoddau er mwyn codi ymwybyddiaeth o niwed posibl gamblo
- Rydw i'n gwybod ble i gael help os ydw i'n poeni amdanaf fy hun neu rywun arall

## Adnoddau:

- B B10 G4 - PowerPoint
- Taflen Adnoddau B10 G4
- Taflen ddata B10
- Beiro a phapur
- Dewisol: cyfrifiadur ar gyfer cyflwyno canfyddiadau

### Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW01-05, CW09-11, CW14-16, CW18, CW24-25, CW27, CW29-30, CW33

### Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel gyda chanllawiau a rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen a chael y cymorth priodol a dewisiadau cyfeirio ychwanegol. Efallai yr hoffech weithio gyda'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol, a allai ysgogi emosiynau. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio.


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/EBRILL21

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B10; hon yw'r bedwaredd rhan o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: Meddwl, Paru, Rhannu**<br><br>Athro yn gofyn i fyfyrwyr ddiffinio niwed sy'n gysylltiedig â gamblo. Sut beth yw hynny?<br><br>Yr athro'n cymryd ymatebion ac yna'n dangos diffiniad y Comisiwn Hapchwarae: "Pan fydd arferiad rhywun yn peryglu, yn niweidio neu'n tarfu ar weithgareddau teuluol, personol neu hamdden."<br><br>**Gweithgaredd: Trefnu!**<br><br>Mae'r disgyblion yn gweithio mewn parau neu mewn grwpiau i ddidoli cardiau yn ôl lliwiau<br>COCH (niweidiol)<br>OREN ( Mewn perygl)<br>GWYRDD (ddim yn niweidiol) | **Gweithgaredd: Ydyn ni'n ymwybodol?**<br><br>Mae myfyrwyr yn gweithio mewn grwpiau i greu adnodd i hybu ymwybyddiaeth o niwed posibl gamblo. Y myfyrwyr i gyfeirio at sut a ble i gael help. Gallai hyn fod ar ffurf poster, taflen, baner ac ati.<br><br>Byddai hwn yn gyfle gwych i greu arddangosfa i fyfyrwyr eraill ei defnyddio.<br><br>Bydd y daflen ddata yn darparu gwybodaeth allweddol a dolenni at asiantaethau cymorth.<br><br>Gellir cwblhau'r wers hon dros fwy nag un sesiwn oherwydd natur greadigol y prif weithgaredd. | **Gweithgaredd: Rydyn ni'n falch o gyflwyno...**<br><br>Bydd y myfyrwyr yn cyflwyno eu gwaith i'r dosbarth. Gall y dosbarth wedyn roi adborth ac asesu eu cyfoedion.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: GamCare a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

V1.0/EBRILL21

# B10G4 ADNODD

| | | |
|---|---|---|
| Dydw i byth yn gorffen fy ngwaith cartref na fy nhasgau o gwmpas y tŷ oherwydd does gen i ddim amser. Rydw i'n treulio fy amser ar y peiriannau ceiniogau ac yna'n mynd yn syth i'r gwely ar ôl cyrraedd adra. Rydw i bob amser mewn trwbl yn yr ysgol am beidio â gwneud fy ngwaith ac mae fy ngraddau'n llithro rhywfaint. | Dydw i ddim yn gamblo Dydy betiau preifat ddim yn cyfrif nac ydyn? Rydyn ni'n betio ar gemau fel cardiau gartref weithiau, ond dydy hynny ddim yn gallu arwain at broblemau; dydw i ddim yn meddwl? | Rydw i'n gwario £5 o fy arian poced unwaith yr wythnos ar gamblo ond yn gwario'r £10 arall ar weithgareddau cymdeithasol fel mynd i'r sinema, bowlio ac ati gyda fy ffrindiau. Dydw i ddim yn teimlo'n rhy drist os ydw i'n colli. |
| Rydw i'n gwario fy holl arian ar-lein ar drysorflychau a gemau fel pocer. Rydw i wedi gorfod dwyn arian oddi ar gerdyn Dad unwaith oherwydd fy mod i wedi rhedeg allan o arian poced. | Rydw i'n mynd i'r arcêd leol ychydig o weithiau yr wythnos gyda fy ffrindiau. Rydw i'n gwario'r rhan fwyaf o'm harian yno, ond rydyn ni'n cael amser da. Rydyn ni hefyd yn gwario rhywfaint o'n harian ar fwyd a diod. | Rydw i'n gamblo ambell waith yr wythnos. Rydw i'n poeni ac yn teimlo'n bryderus a dydw i ddim yn gallu canolbwyntio ar lawer o bethau eraill oni bai fy mod i'n gwybod fy mod i wedi ennill yr arian roeddwn i wedi'i wario yn ôl. |
| Does gen i ddim amser i gael cawod a gwneud fy mrecwast a chinio. Mae angen i mi wneud yn siŵr fy mod yn gallu ennill yr arian a gollais ddoe yn ôl. Mae hynny'n bwysicach! | Rydw i'n cael arian poced unwaith y mis gan Nain. Rydw i bob amser yn dweud fy mod am ei gadw i fynd allan gyda fy ffrindiau, ond rydw i bob amser yn ei wario ar gamblo ar unwaith. Rydw i'n ceisio rhoi'r gorau iddi ond bob mis, alla'i ddim – dydw i ddim yn gallu stopio. | Roeddwn i'n arfer treulio'r penwythnos gyda'm cefndryd yn chwarae pêl-droed ac yn mynd i'r arcedau ond nawr rydw i'n chwarae gemau ar-lein ar fy mhen fy hun ac yn treulio fy amser ac yn gwario fy arian ar-lein. Dydw i ddim yn gweld fy nghefndryd mwyach. Dydyn nhw ddim yn deall. |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/EBRILL21

| | | |
|---|---|---|
| Rydw i newydd gael fy mhen-blwydd yn 18 oed, mae fy ffrindiau a minnau'n mynd i'r casino rai wythnosau, dim ond am ein bod yn gallu gwneud hynny'n gyfreithiol erbyn hyn, ac mae pob un ohonom yn cytuno i ofalu am ein gilydd a pheidio â betio mwy na'r hyn y gallwn ei fforddio. A dweud y gwir, dydyn ni ddim yn deall beth yw'r holl ffwdan. | Rydw i'n chwarae'r Loteri Genedlaethol unwaith yr wythnos. Mae wedi bod yn draddodiad yn fy nheulu ac fe wnes i ddal ati. Does gen i ddim rhifau lwcus - dim ond y rhifau ar hap sydd gen i. Pe bawn i byth yn rhoi'r gorau i'w gwneud, fyddwn i ddim yn poeni y byddai fy rhifau arbennig yn cael eu dewis. | Rydw i'n gamblo ar ddigwyddiadau chwaraeon mawr. Y rhan fwyaf o'r amser mae'n cael ei drefnu drwy'r gwaith ac rydw i'n ei wneud fel rhan o'r diwylliant, ond dydw i erioed wedi gamblo unrhyw dro arall. |
| Rydw i'n chwarae gemau am arian gyda ffrindiau a theulu, fel taflu ceiniogau, cardiau a gemau bwrdd. Rydw i bob amser yn lwcus. Tybed a allwn i fod mor lwcus â hyn gyda gamblo 'go iawn'. | Rydw i'n teimlo'n euog drwy'r amser. Mae fy nheulu'n meddwl ei bod hi'n anfoesol gamblo ac rydw i wedi bod yn gwneud hynny o bryd i'w gilydd gyda fy ffrindiau i ffitio i mewn. Dydw i ddim yn ei 'ddeall' mewn gwirionedd. | Dydw i ddim yn gallu siarad â fy rhieni na fy ffrindiau oherwydd y cyfan maen nhw'n ei wneud yw cega arna i am gamblo. Dydyn nhw ddim yn deall bod angen i mi wneud hyn bob dydd; mae'n hwyl. |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/EBRILL21

# B10G5: Arian a dyled

**Her:** Ystyriwch faint o arian, ar gyfartaledd, mae pobl ifanc 11-16 oed yn ei wario ar gamblo. Sut arall y gellid gwario'r arian hwn? Nodwch gynllun ariannol tymor byr a thymor hir i chi'ch hun.

## Amcanion Dysgu:

- Deall sut mae gamblo yn cysylltu â chyllid
- Dod o hyd i ffyrdd o reoli arian personol
- Gwerthuso eich arian personol eich hun

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n gallu disgrifio'r cysylltiad rhwng gamblo a chyllid ar gyfer pobl ifanc
- Rydw i'n gallu archwilio gweithgareddau eraill a ffyrdd o wario arian
- Rydw i'n gallu dod o hyd i ffyrdd o reoli fy arian fy hun
- Rydw i'n gallu creu cynllun ariannol i sicrhau fy mod yn gallu rheoli fy sefyllfa ariannol
- Rydw i'n gallu myfyrio ar fy ngwariant nawr ac yn y dyfodol

## Adnoddau:

- B10 G5 - PowerPoint
- Beiro a phapur
- Post-its neu docynnau papur
- Taflen ddata B10
- Dewisol: cyfrifiadur

### Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW02, CW04, CW06-07, CW12, CW16, CW20-21, CW27, CW29-30, CW33

### Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel gyda chanllawiau a rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen a chael y cymorth priodol a dewisiadau cyfeirio ychwanegol. Efallai yr hoffech weithio gyda'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/EBRILL21

sensitif a phrofiadau personol, a allai ysgogi emosiynau. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio.

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B10; hon yw'r bumed ran o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: Rho bump i mi**<br><br>Yr athro'n tynnu llun llaw ar y bwrdd<br>Y myfyrwyr i roi pum peth maen nhw'n meddwl mae pobl ifanc yn gwario eu harian arnyn nhw (un i bob bys).<br><br>Yr athro i gymryd ymatebion ac yna cysylltu'r rheini â gwario ar gamblo a chwarae gemau. Yr athro i gyflwyno gwybodaeth am wariant gamblo (sydd hefyd ar y daflen ddata):<br><br>Mae 11% o bobl ifanc 11-16 oed wedi gwario arian ar gamblo yn y 7 diwrnod diwethaf<br>Mae 35% o'r bobl ifanc 11-16 oed hyn wedi gwario dros £10 yn y 7 diwrnod diwethaf<br>Mae 49% o'r bobl ifanc 11-16 oed hyn wedi gwario £5 neu lai ar gamblo yn y 7 diwrnod diwethaf<br>Mae 44% o bobl ifanc 11-16 oed wedi talu arian i agor trysorflychau | **Gweithgaredd: Map meddwl**<br><br>Mewn parau neu grwpiau, bydd myfyrwyr yn creu map meddwl o ba weithgareddau eraill y gallai pobl ifanc wario eu harian arnyn nhw.<br><br>Yr athro i gasglu amrywiaeth o ymatebion i gefnogi myfyrwyr gyda syniadau.<br><br>**Estyniad:** Gallai'r myfyrwyr gyfrifo faint maen nhw'n ei wario'n bersonol ar weithgareddau gwahanol a gallen nhw gyfrifo hyn fel canrannau.<br><br>**Gweithgaredd: Cynlluniau ariannol**<br><br>Myfyrwyr i greu cynllun ariannol tymor byr a thymor hir<br><br>Gellid addasu hyn i gynlluniau ariannol ôl-16 a sut maen nhw'n bwriadu rheoli arian, gan ei bod yn bosibl na fydd rhai myfyrwyr yn cael arian poced ac ati. | **Gweithgaredd: Tocyn gadael**<br><br>Bydd y myfyrwyr yn ysgrifennu un ffordd o sicrhau eu bod yn rheoli eu harian nawr neu yn y dyfodol.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: GamCare a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

| | | |
|---|---|---|
| Mae 7% o bobl ifanc 11-16 oed wedi gwario arian ar gamblo ar-lein<br><br>Opsiwn TG: Gallai myfyrwyr ymchwilio i wybodaeth am wariant cyfartalog pobl ifanc, yn ogystal â'r gwariant ar gamblo. | | |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

# B10G6 Tueddiadau Gamblo

**Her:** Ewch ati i gynnal arolwg byr a chael gwybod mwy am gamblo, risgiau a niwed. A oes unrhyw negeseuon allweddol? Efallai yr hoffech gyfweld rhywun sydd â phrofiad uniongyrchol o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo er mwyn deall y risgiau posibl ymhellach.

## Amcanion Dysgu:

- Nodi'r gwahanol fathau o gamblo sy'n gyffredin yn y DU.
- Cyflwyno gwybodaeth i'ch cyfoedion.

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n gallu adnabod y gwahanol fathau o gamblo.
- Rydw i'n gallu creu arolwg i ymchwilio i gamblo.
- Rydw i'n gallu dadansoddi fy nghanfyddiadau a chreu graff neu siart i ddangos fy nghanfyddiadau.
- Rydw i'n gallu cyflwyno fy nghanfyddiadau i fy nghyfoedion.

## Adnoddau:

- B10 G6 - PowerPoint
- Beiro a phapur
- Post-its
- Dewisol: cyfrifiadur

### Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW02-05, CW09-11, CW17-18, CW20-22, CW25, CW27, CW33

### Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel gyda chanllawiau a rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen a chael y cymorth priodol a dewisiadau cyfeirio ychwanegol. Efallai yr hoffech weithio gyda'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol, a allai ysgogi emosiynau. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio.


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl
V1.0/EBRILL21

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B10; hon yw'r chweched ran o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

| I ddechrau | Prif ran | Pawb gyda'i gilydd |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd: Post-it**<br><br>Athro i ofyn i'r myfyrwyr ysgrifennu'r gwahanol fathau o gamblo sy'n digwydd. Gallai enghreifftiau gynnwys: loteri, cardiau crafu, bingo, rasio ceffylau, casino ac ati.<br><br>**Athro:** ceisiwch gael mathau eraill o gamblo, er enghraifft, microdrafodion, gêm ceiniogau/taflu'r ceiniogau, gemau rheolaidd lle mae arian/betio yn gysylltiedig.<br><br>Bydd y myfyrwyr yn rhoi'r post-its ar y bwrdd i greu wal graffiti. Gall yr athro wedyn ddarllen amrywiaeth o ymatebion.<br><br>DS, athro i sicrhau bod myfyrwyr yn sylweddoli nad yw pawb sy'n gamblo yn dioddef niwed. | **Gweithgaredd: Gadewch i ni ymchwilio:**<br><br>Mewn parau neu grwpiau, mae myfyrwyr yn creu arolwg i ganfod pa fathau o gamblo mae pobl wedi rhoi cynnig arnyn nhw a pham, a pham ddim? Gellid cwblhau hyn fel arolwg dienw gan ddefnyddio darparwr arolwg ar-lein.<br><br>Opsiynau eraill:<br>1. Gallai myfyrwyr ddefnyddio TGCh i ymchwilio i dueddiadau gamblo oedolion. Mae Adroddiad y Comisiwn Hapchwarae yn fan cychwyn da ar gyfer ymchwil TG.<br>3. Efallai yr hoffech wahodd siaradwr gwadd sydd wedi profi niwed sy'n gysylltiedig â gamblo i sesiwn Holi ac Ateb.<br><br>NODER: Gellid gwneud hyn dros ddwy wers. Gallai'r myfyrwyr greu'r arolwg yn y wers hon, yna mynd ag ef adref a dod ag ef yn ôl wedi'i gwblhau ar gyfer y wers ganlynol.<br><br>**Gweithgaredd: Gadewch i ni ymchwilio:**<br><br>Bydd y myfyrwyr yn edrych ar ganfyddiadau eu harolwg ac yn creu graff neu siart. Bydd y myfyrwyr wedyn yn cyflwyno eu canfyddiadau i'r dosbarth. | **Gweithgaredd: 60 eiliad o sgriblo**<br><br>Y myfyrwyr i ysgrifennu'r prif bethau maen nhw wedi'u dysgu o'r wers. Mae ganddyn nhw 60 eiliad i ysgrifennu cymaint ag y gallan nhw.<br><br>**Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.**<br><br>**Dewisiadau cyfeirio: GamCare a Childline.** |


©YGAM 2020: Cedwir pob hawl

V1.0/EBRILL21